# **Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru:** Proses Sgrinio'r Asesiad Amgylcheddol Strategol o Hysbysiad Cynllunio Morol yr Ardaloedd Adnoddau Strategol

## 1. Diben a chrynodeb

1.1.1 Mae'r Nodyn Technegol hwn yn cyflawni'r broses sgrinio ddrafft ar gyfer yr Asesiad Amgylcheddol Strategol[1] o Hysbysiad Cynllunio Morol yr Ardaloedd Adnoddau Strategol arfaethedig, sy'n cael ei ddatblygu gan Lywodraeth Cymru o dan Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru (y Cynllun Morol).

1.1.2 Mae proses sgrinio'r Asesiad Amgylcheddol Strategol yn defnyddio gwybodaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru a chynnwys tebygol Hysbysiad Cynllunio Morol yr Ardaloedd Adnoddau Strategol, gan gofio bod y gwaith ar yr Hysbysiad Cynllunio Morol a'r Ardaloedd Adnoddau Strategol yn dal i fynd rhagddo a heb ei gwblhau. O ganlyniad, mae proses sgrinio'r Asesiad Amgylcheddol Strategol wedi dod i'r casgliad dros dro na fydd gofyniad ffurfiol i gwblhau Asesiad Amgylcheddol Strategol. Tra bo Hysbysiad Cynllunio Morol yr Ardaloedd Adnoddau Strategol yn gynllun perthnasol neu'n rhaglen berthnasol ac o fewn sector priodol, nid yw'n creu'r fframwaith ar gyfer rhoi cydsyniad datblygu yn y dyfodol, ac nid yw'n debygol o gael effeithiau sylweddol ar safleoedd Ewropeaidd sy'n galw am asesiad o dan y Rheoliadau Cynefinoedd[2]. O ganlyniad, nid yw'r gofynion wedi'u bodloni ar gyfer cynnal Asesiad Amgylcheddol Strategol o dan y rheoliadau perthnasol.

1.1.3 Mae'r angen i gynnal Arfarniad o Gynaliadwyedd ar gyfer Hysbysiad Cynllunio Morol yr Ardaloedd Adnoddau Strategol hefyd wedi'i ystyried. Er bod y sefyllfa'n amwys, drwy ddefnyddio enghreifftiau o gynllunio morol yn yr Alban a chynllunio defnydd tir yng Nghymru a Lloegr yn gynsail, daethpwyd i'r casgliad y dylai'r un dull gael ei ddefnyddio, ac nad oes angen cynnal Arfarniad o Gynaliadwyedd ar gyfer Hysbysiad Cynllunio Morol yr Ardaloedd Adnoddau Strategol.

1.1.4 Cafwyd trafodaethau â Cyfoeth Naturiol Cymru am y casgliadau dros dro hyn.

1.1.5 Argymhellir bod Llywodraeth Cymru yn parhau i adolygu proses sgrinio'r Asesiad Amgylcheddol Strategol a'r casgliadau dros dro, a hynny er mwyn adlewyrchu unrhyw

[1] Llywodraeth EM (2004) Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni 2004 (SI 1633).

[2] Llywodraeth EM (2017) Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (SI 1012)

newidiadau pan fydd mwy o wybodaeth am gynnwys terfynol Hysbysiad Cynllunio Morol yr Ardaloedd Adnoddau Strategol ar gael.

1.1.6 Efallai y bydd Llywodraeth Cymru'n dal i ddymuno defnyddio dulliau asesu strategol wrth ddatblygu Hysbysiad Cynllunio Morol yr Ardaloedd Adnoddau Strategol; serch hynny, Gweinidogion Cymru fyddai i benderfynu hynny.

# 2. Cefndir

## 2.1 Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru, Hysbysiad Cynllunio Morol ac Ardaloedd Adnoddau Strategol

2.1.1 Cyhoeddwyd Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru ar 12 Tachwedd 2019 gan Lywodraeth Cymru. Mae'n berthnasol i ranbarthau'r glannau a'r môr mawr a chafodd ei baratoi a'i fabwysiadu o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 yn unol â Datganiad Polisi Morol y Deyrnas Unedig. Mae'r Cynllun Morol yn ceisio llywio datblygu cynaliadwy yn ardal forol Cymru drwy ddangos sut y bydd y bobl sy'n gwneud penderfyniadau yn ystyried cynigion, a thrwy ddarparu adnoddau i hwyluso cynllunio gofodol yn yr amgylchedd morol.

2.1.2 Mae'r Cynllun Morol yn cynnwys polisïau diogelu sy'n ceisio sicrhau bod gweithgareddau presennol sectorau a/neu weithgareddau posibl yn y dyfodol yn gydnaws â'i gilydd wrth ystyried cynigion newydd. Mae'r polisïau ar y cyfan yn ffurfioli arferion cynllunio cyffredin (h.y. maent yn ystyried y tensiynau posibl rhwng sectorau a sut i reoli hyn), ond maent yn sicrhau bod yr ystyriaethau hyn yn cael eu gwneud mewn ffordd strwythuredig a phrydlon ar adeg briodol yn y broses o ddatblygu cynnig neu benderfynu ar gynnig. Ceir pedwar polisi diogelu yn y Cynllun Morol:

- Mae **DEF_01** yn diogelu gweithgareddau sy'n ymwneud â'r Sector Amddiffyn.
- Mae **SAF_01a** a **SAF_01b** yn berthnasol i ddiogelu gweithgareddau presennol nad ydynt yn ymwneud ag amddiffyn (yn dibynnu a oes angen awdurdodiad ffurfiol ar y gweithgaredd neu beidio (01b)).
- Mae **SAF_02** yn diogelu adnoddau strategol y gallai sectorau penodol fod am eu defnyddio yn y dyfodol, ac mae'n ceisio sicrhau nad yw'r rhain yn cael eu sterileiddio neu fel arall nad yw gweithgareddau anghydnaws yn cyfyngu'n sylweddol arnynt. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy ddynodi **Ardaloedd Adnoddau Strategol** drwy **Hysbysiadau Cynllunio Morol,** gyda **Chanllawiau Gweithredu**[3] i gyd-fynd.

### Ardaloedd Adnoddau Strategol

2.1.3 Diffinnir Ardaloedd Adnoddau Strategol ym mharagraff 47 y Cynllun fel "erfyn i reoli gweithgareddau, gofod ac adnoddau morol yn well, gan helpu i reoli'r rhyngweithiau rhwng sectorau a rhoi ffocws ar gyfer rhagor o gynllunio strategol." Maent yn ardaloedd o

[3] Llywodraeth Cymru (2020) *Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru: Arweiniad Gweithredu*.

adnoddau naturiol ac iddynt ffiniau, wedi'u gosod ar wahân, ac mae ganddynt y potensial i gefnogi defnydd cynaliadwy yn y dyfodol gan sector penodol.

2.1.4 Yn unol â'r darpariaethau a geir ym mharagraffau 53-55 y Cynllun Morol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu dynodi Ardaloedd Adnoddau Strategol i ddiogelu ardaloedd lle ceir adnoddau (ac y mae sector yn dibynnu arnynt) rhag effeithiau niweidiol sylweddol yn sgil unrhyw gynigion newydd yn y dyfodol.

2.1.5 Gellid datblygu Ardaloedd Adnoddau Strategol ar gyfer nifer o sectorau a enwir yn y Cynllun Morol. Mae Llywodraeth Cymru wedi awgrymu ei bod yn bwriadu edrych ar y posibilrwydd o ddynodi Ardaloedd Adnoddau Strategol yn y sectorau canlynol:

- adnoddau ynni tonnau;
- adnoddau ynni ffrwd llanw;
- adnoddau ynni amrediad llanw;
- adnoddau ynni gwynt arnofiol ar y môr mawr;
- adnoddau agregau; ac
- adnoddau dyframaeth (pysgod cregyn a gwymon).

2.1.6 Mae Llywodraeth Cymru'n bwrw ymlaen â gwaith i fapio a datblygu Ardaloedd Adnoddau Strategol posibl mewn partneriaeth â rhanddeiliaid ac yn unol â meini prawf a geir yn y Cynllun Morol ac yn egwyddorion dylunio'r Ardaloedd Adnoddau Strategol[4]. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol, ond heb eu cyfyngu i hyn:

- Canfod a hepgor ardaloedd lle ceir cyfyngiadau 'caled' sy'n benodol i sectorau[5] [er enghraifft, mewn perthynas â SAF_01a].
- Ystyried cyfyngiadau 'meddal'[6] a diwygio Ardal Adnoddau Strategol bosibl fel sy'n briodol [er enghraifft, ystyried gweithgareddau presennol (SAF_01b); ystyriaethau amgylcheddol (polisïau ENV_01, 02, 07); ystyriaethau cymdeithasol/diwylliannol (polisïau SOC_05, 06, 07)].
- Ceisio lleihau gwrthdaro rhwng cyfleoedd sectorol.
- Ceisio hyrwyddo cydfodolaeth[7] a chynllunio'n ofodol yn y ffordd orau bosibl er mwyn diogelu adnoddau.

[4] Llywodraeth Cymru (2021) Nodi Ardaloedd Adnoddau Strategol ar gyfer Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru: Egwyddorion Dylunio.

[5] Cyfyngiad caled – ystyriaeth ofodol sy'n golygu, dros oes y cyfyngiad hwnnw, nad yw datblygiad newydd ar gyfer sector penodol yn bosibl, yn ymarferol. Er enghraifft, byddai seilwaith sefydlog sylweddol yn cael ei ystyried yn gyfyngiad caled mewn perthynas â chynllun newydd i echdynnu agregau.

[6] Cyfyngiad meddal – ystyriaeth ofodol sy'n ymwneud â sector penodol. Gall cyfyngiadau meddal amrywio o ran pa mor berthnasol ydynt i'r cyfleoedd i gyflwyno datblygiad newydd ac i natur y datblygiad hwnnw. Er enghraifft, byddai Ardal Forol Warchodedig yn ystyriaeth bwysig ar gyfer datblygiad ynni adnewyddadwy newydd, ond nid yw hyn o anghenraid yn golygu na ellid bwrw ymlaen â datblygiad newydd.

[7] Diffiniad y Cynllun Morol o gydfodolaeth yw sefyllfa lle mae nifer o ddatblygiadau, gweithgareddau neu fathau o ddefnydd yn gallu bodoli yn agos at ei gilydd neu yn yr un lle ar yr un pryd Mae cydleoli yn un o is-elfennau cydfodoli lle

- Osgoi sefyllfa lle bydd Ardaloedd Adnoddau Strategol yn gorgyffwrdd pan na fydd hi'n bosibl, efallai, i weithgareddau gydfodoli.
- Sicrhau eglurder yn y trefniadau diogelu drwy osgoi ffiniau sy'n anghymesur o gymhleth ac ardaloedd digyswllt neu ddarniog, lle bydd hynny'n bosibl, yn yr Ardaloedd Adnoddau Strategol arfaethedig terfynol.

2.1.7 Y bwriad yw y bydd yr Ardaloedd Adnoddau Strategol yn cyd-fynd â SAF_02 er mwyn canfod ardaloedd lle ceir adnoddau sy'n ymwneud â sectorau penodol i'w diogelu at ddefnydd posibl yn y dyfodol, heb ddod i unrhyw gasgliad am ba mor dderbyniol neu annerbyniol yw datblygiadau penodol; gan hynny:

- Nid ydynt yn rhoi hawliau defnyddio na hawliau datblygu i unrhyw sector.
- Ni fyddant yn rhoi cefnogaeth uniongyrchol na manteision o ran cynllunio ar gyfer datblygu (e.e. ni fydd cynnig 'ffrwd llanw' yn cael ei ystyried yn fwy derbyniol neu'n fwy tebygol o gael ei ganiatáu gan ei fod mewn Ardal Adnoddau Strategol ffrwd llanw).
- Nid ydynt yn rhwystro sectorau eraill rhag defnyddio ardal (felly, er enghraifft, yn syml, byddai angen i gynnig agregau mewn Ardal Adnoddau Strategol 'ffrwd llanw' ddangos (*inter alia*) y gellid sicrhau cydnawsedd digonol â'r potensial i ddarparu datblygiadau ffrwd llanw cynaliadwy yn yr ardal honno).
- Nid ydynt yn awgrymu unrhyw faint neu raddfa benodol ar gyfer datblygu neu ddefnyddio adnodd.

2.1.8 Yn syml, diben Ardaloedd Adnoddau Strategol yw diogelu adnoddau a hwyluso deialog ragweithiol rhwng sectorau wrth gynllunio gweithgareddau'r dyfodol. Mae paragraff 48 y Cynllun Morol yn cyflwyno diben Ardaloedd Adnoddau Strategol: "Bydd yr [Ardaloedd Adnoddau Strategol], lle maent wedi'u cyflwyno, yn llywio polisi diogelu'r sector. Nid yw'r [Ardal Adnoddau Strategol] o reidrwydd yn ddatganiad bod yr ardal yn addas ar gyfer ei datblygu nac yn gwahardd datblygu gweithgareddau eraill yn yr ardal. Oni dywedir yn wahanol, nid yw [Ardal Adnoddau Strategol] yn awgrymu graddfa na chyflymder datblygu na defnyddio'r adnodd ac efallai na fyddai rhai gweithgarwch dynol yn briodol mewn [Ardal Adnoddau Strategol] oherwydd y gofyn i ddiogelu rhai nodweddion [Ardaloedd Morol Gwarchodedig]. Gallai'r ardal y mae [Ardal Adnoddau Strategol] yn ei diogelu adlewyrchu potensial tymor hir y sector dros oes y Cynllun hwn a thu hwnt."

## Hysbysiad Cynllunio Morol

2.1.9 Mae SAF_02 yn diogelu adnoddau strategol ar gyfer y potensial i'w defnyddio yn y dyfodol, gan fapio'r adnoddau naturiol perthnasol yn ofodol i alluogi hynny. Mae'r testun sy'n cyd-fynd â'r polisi (paragraff 250) yn datgan y bydd "y polisi hwn yn berthnasol i'r [Ardal Adnoddau Strategol] o'r pwynt pan mae'n cael ei chyflwyno hyd at gyhoeddi'r [Hysbysiad Cynllunio Morol]". Mae hyn yn cyd-fynd â thestun blaenorol yn y Cynllun Morol (paragraff 50) sy'n datgan "...gallai'r awdurdod cynllunio morol gyflwyno [Ardal Adnoddau Strategol] trwy gyhoeddi [Hysbysiad Cynllunio Morol]".

---

mae nifer o ddatblygiadau, gweithgareddau neu fathau o ddefnydd yn cydfodoli yn yr un lle drwy rannu'r un ôl troed neu arwynebedd. (paragraff 98 y Cynllun Morol).

2.1.10 Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud bod strwythur a chynnwys yr Hysbysiad Cynllunio Morol yn debygol o fod yn debyg i'r canlynol:

- Bydd yn datgan ei fod wedi'i gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru.
- Bydd yn rhoi datganiad clir ynghylch rôl a statws yr Hysbysiad Cynllunio Morol wrth wneud penderfyniadau (gan gyfeirio yn ôl at y darpariaethau perthnasol yn y Cynllun Morol).
- Bydd yn datgan bod yr Hysbysiad Cynllunio Morol yn rhoi polisi SAF_02 y Cynllun Morol ar waith yn ffurfiol o ran yr Ardaloedd Adnoddau Strategol perthnasol ar gyfer y sectorau a ddynodwyd.
- Bydd yn datgan y dyddiad pan ddaw hyn i rym a'r camau y mae angen i'r gwahanol bartïon eu cymryd o'r dyddiad hwn h.y. pawb sy'n gwneud penderfyniadau i roi polisi SAF_02 y Cynllun Morol ar waith mewn perthynas â'r sectorau perthnasol.
- Bydd yn cyflwyno'r darpariaethau a fu'n sail i nodi'r Ardal Adnoddau Strategol ac i roi polisi SAF_02 y Cynllun Morol ar waith.
- Bydd yn cyflwyno'r rhesymeg / y cyfiawnhad dros weithredu yn y modd hwn.
- Bydd yn crynhoi'r broses a fu'n sail i nodi a datblygu'r Ardal Adnoddau Strategol.
- Bydd yn cyflwyno cwmpas / i ba raddau y caiff polisi SAF_02 y Cynllun Morol ei roi ar waith a manylion yr Ardal Adnoddau Strategol (y sector, yr ardal neu'r ardaloedd o adnoddau naturiol a ddiogelir).
- Bydd yn rhoi canllawiau am ddehongli 'cydnawsedd' a'r 'achos dros fwrw ymlaen' o fewn SAF_02.
- Bydd yn datgan nad yw Ardaloedd Adnoddau Strategol yn llywio datblygu ac y bydd angen i bob cynnig a gyflwynir yn yr Ardal Adnoddau Strategol ddilyn y gweithdrefnau awdurdodi a chydsynio arferol.
- Bydd yn cynnwys map(iau) o'r ardal(oedd) o adnoddau naturiol a ddiogelir yn yr Ardal Adnoddau Strategol – gan gyfeirio at y Porth Cynllunio Morol ar gyfer mapio manwl 'byw'.
- Bydd yn cyflwyno'r darpariaethau/trefniadau ar gyfer diweddaru, adolygu a thynnu Hysbysiad Cynllunio Morol / Ardal Adnoddau Strategol yn ôl.
- Bydd yn cyfeirio at y pecyn tystiolaeth sy'n sail i'r Hysbysiad (mapiau, tystiolaeth ofodol, asesiadau effaith, Canllawiau Lleoliadol Sectorau, ymatebion i ymgynghoriadau ac ati) a ffynonellau rhagor o ganllawiau e.e. y Canllawiau Gweithredu.

2.1.11 O ran y canllawiau y bydd yr Hysbysiad Cynllunio Morol yn ei roi i bobl sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch sut i ddehongli 'cydnawsedd digonol' a'r 'achos dros fwrw ymlaen' yn SAF_02, nid yw Llywodraeth Cymru wedi penderfynu pa ddull i'w ddilyn (ai blaenoriaethu, meini prawf, neu gyfuniad o'r ddau). Mae Llywodraeth Cymru yn dweud y byddai angen i unrhyw ganllawiau adlewyrchu'r canlynol:

- Rhyngweithio penodol rhwng sectorau unigol / Ardaloedd Adnoddau Strategol sectorau unigol, a lleoliadau penodol yr Ardaloedd Adnoddau Strategol, a fyddai'n cael ei deilwra ar gyfer pob Ardal Adnoddau Strategol.
- Materion i'w hystyried fel rhan o'r achos dros fwrw ymlaen lle bydd effeithiau niweidiol gweddilliol a allai gynnwys cyfeiriad at y canlynol:
  - yr angen strategol am y cynnig;
  - y ffaith nad oes opsiynau eraill hyfyw ar gyfer bwrw ymlaen â'r cynnig yn ei ffurf bresennol (e.e. dyluniad, graddfa, lleoliad);
  - bod yr angen i fwrw ymlaen â'r cynnig a/neu'r manteision o wneud hynny yn drech na'r effeithiau niweidiol ar yr adnodd a ddiogelir.

2.1.12 Byddai canllawiau o'r fath, pe baent yn cael eu cynnwys yn yr Hysbysiad Cynllunio Morol, yn ystyriaeth berthnasol wrth wneud penderfyniadau o dan adran 58 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009. O ganlyniad, byddent yn atodol at y gofynion yn y Cynllun Morol.

## 2.2 Asesiad Amgylcheddol Strategol

### Crynodeb

2.2.1 Daeth Asesiadau Amgylcheddol Strategol yn ofyniad statudol ar ôl mabwysiadu[8] Cyfarwyddeb 2001/42/EC ynghylch asesu effeithiau cynlluniau a rhaglenni penodol ar yr amgylchedd (y gyfarwyddeb Asesiadau Amgylcheddol Strategol). Yng Nghymru, troswyd hyn i ddeddfwriaeth ar 12 Gorffennaf 2004 ar ffurf Offeryn Statudol 2004 Rhif 1656 – Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004. Mae'r rhain yn berthnasol i gynlluniau a rhaglenni sy'n effeithio'n gyfan gwbl ar Gymru; fodd bynnag, os gallai cynlluniau neu raglenni effeithio ar fwy nag un wlad yn y Deyrnas Unedig, yna byddai Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni 2004 (Offeryn Statudol Rhif 1633) (Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol Strategol) yn berthnasol. Aseswyd y Cynllun Morol o dan reoliadau Asesiadau Amgylcheddol Strategol y Deyrnas Unedig.

2.2.2 Mae proses yr Asesiadau Amgylcheddol Strategol yn broses systematig i gefnogi penderfyniadau, a'r nod yw sicrhau bod effeithiau amgylcheddol sylweddol, tebygol cynlluniau a rhaglenni'n cael eu canfod, eu disgrifio a'u hasesu er mwyn osgoi, rheoli neu liniaru unrhyw effeithiau niweidiol sylweddol a chryfhau unrhyw effeithiau buddiol. Yn y cyd-destun hwn, diben yr Asesiad Amgylcheddol Strategol yw annog awduron y cynlluniau perthnasol i gynnwys ystyriaethau amgylcheddol yn natblygiad unrhyw gynllun

[8] Nid yw cyfraith yr UE bellach yn berthnasol yn y DU o dan delerau'r Cytundeb Ymadael a Chytuniadau'r UE. Mae Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 wedi creu corff newydd o gyfraith ddomestig, sy'n cael ei galw yn gyfraith yr UE sydd wedi'i chadw. Dylid darllen unrhyw gyfeiriadau at Gyfarwyddebau'r UE yn y Nodyn Technegol hwn fel cyfeiriadau at y ddeddfwriaeth ddomestig a roddodd y Gyfarwyddeb dan sylw ar waith (gan gynnwys cyfraith ddomestig fel y caiff ei diwygio neu ei disodli o dro i dro).

neu raglen.  Yn gyffredinol, bydd yr Asesiad Amgylcheddol Strategol gan hynny'n cael ei gynnal cyn cynnal Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol.

2.2.3 O ganlyniad, ac at ddibenion proses sgrinio'r Asesiad Amgylcheddol Strategol, caiff yr Hysbysiad Cynllunio Morol sydd ar y gweill ei ystyried fel y cynllun perthnasol neu'r rhaglen berthnasol (yn hytrach nag unrhyw Ardal Adnoddau Strategol unigol).


# 3. Proses sgrinio'r Asesiad Amgylcheddol Strategol

## 3.1 Y dull o sgrinio a'r canlyniadau

3.1.1 Mae **Ffigur 3.1**[9] yn amlinellu'r broses sgrinio ar gyfer penderfynu a oes angen Asesiad Amgylcheddol Strategol o Hysbysiad Cynllunio Morol Llywodraeth Cymru.

[9] Ffigur 2 o Ganllawiau Ymarferol yr ODPM 2005

Ffigur 3.1 Proses sgrinio'r Asesiad Amgylcheddol Strategol




3.1.2 Mae'r camau a amlinellir yn **Ffigur 3.1** wedi'u troi yn *pro forma,* a hwnnw wedi'i gwblhau ar gyfer yr Hysbysiad Cynllunio Morol (gweler **Tabl 3.1**). At ddibenion bod yn gyflawn, mae ymateb wedi'i roi ar gyfer pob cwestiwn, er y nodir nad yw hyn yn hanfodol wrth ddilyn y goeden benderfynu yn y diagram.

© Wood Group UK Limited



Tabl 3.1 Sgrinio'r angen am Asesiad Amgylcheddol Strategol o Hysbysiad Cynllunio Morol yr Ardaloedd Adnoddau Strategol o dan y Cynllun Morol

| Cwestiwn sgrinio'r Asesiad Amgylcheddol Strategol | Ydy/Nag ydy<br>neu<br>Oes/Nag oes<br>neu<br>Bydd/Na fydd | Manylion |
|---|---|---|
| 1. A yw'r cynllun (neu'r rhaglen) yn cael ei baratoi a/neu ei fabwysiadu gan awdurdod cenedlaethol, rhanbarthol neu leol NEU yn cael ei baratoi gan awdurdod i'w fabwysiadu drwy weithdrefn ddeddfwriaethol gan Senedd neu Lywodraeth? (Erth. 2(a)) | **Ydy** | Mae'r Hysbysiad Cynllunio Morol, fel y cynllun perthnasol neu'r rhaglen berthnasol, yn cael ei baratoi gan Lywodraeth Cymru, sy'n awdurdod cenedlaethol.<br>Mae Gweinidogion Cymru wedi'u henwi fel yr awdurdod cynllunio morol perthnasol o dan Adran 50(2d a 2e) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 ac mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu bwrw ymlaen, yn unol â'r darpariaethau a geir ym mharagraffau 53-55 y Cynllun Morol, â'r broses o nodi Ardaloedd Adnoddau Strategol i ddiogelu ardaloedd o adnoddau y mae sector yn ddibynnol arnynt rhag effeithiau niweidiol sylweddol sy'n deillio o gynigion newydd. Mae paragraff 50 y Cynllun Morol yn datgan "...gallai'r awdurdod cynllunio morol gyflwyno [Ardal Adnoddau Strategol] trwy gyhoeddi [Hysbysiad Cynllunio Morol]". |
| 2. A oes angen y cynllun neu'r rhaglen yn sgil darpariaethau deddfwriaethol, rheoleiddiol neu weinyddol? (Erth. 2(a)) | **Oes** | Gweinidogion Cymru fydd yn penderfynu bwrw ymlaen â'r Hysbysiad Cynllunio Morol, fel yr awdurdod cynllunio morol perthnasol, a bydd angen iddynt wedyn baratoi'r Hysbysiad Cynllunio Morol yn unol â'r darpariaethau deddfwriaethol a gweinyddol canlynol:<br>• Mae Adran 51(9) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 yn datgan: "A marine plan may also include statements or information relating to policies contained in the plan".<br>• Dywed paragraff 33 o'r Cynllun Morol, "Dogfennau cynllunio atodol (e.e. gallai Canllawiau ar Gyflawni (IG) a Hysbysiadau Cynllunio Morol (MPN) roi mwy o help ac arweiniad gofodol wrth roi polisi ar waith". |

| Cwestiwn sgrinio'r Asesiad Amgylcheddol Strategol | Ydy/Nag ydy<br>neu<br>Oes/Nag oes<br>neu<br>Bydd/Na fydd | Manylion |
|---|---|---|
| | | • Mae paragraffau 46-61 o'r Cynllun Morol yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyflwyno, drwy gyhoeddi Hysbysiadau Cynllunio Morol, Ardaloedd Adnoddau Strategol sy'n rhoi ar waith bolisi SAF_02 y Cynllun Morol ar gyfer y potensial o ddefnyddio adnoddau'n gynaliadwy yn y dyfodol, ac yn cyflwyno'r manylion ar gyfer gwneud hynny.<br>• Dywed paragraff 50 o'r Cynllun Morol "...gallai'r awdurdod cynllunio morol gyflwyno [Ardal Adnoddau Strategol] trwy gyhoeddi [Hysbysiad Cynllunio Morol]".<br>• Dywed paragraff 54 "Pan fydd awdurdod y cynllun morol yn cynnig cyflwyno SRA, dylai: ...[b]ennu'r [Ardal Adnoddau Strategol] trwy gyhoeddi [Hysbysiad Cynllunio Morol]". |
| 3. A yw'r cynllun (neu'r rhaglen) yn cael ei baratoi ar gyfer amaethyddiaeth, coedwigaeth, pysgodfeydd, ynni, diwydiant, trafnidiaeth, rheoli gwastraff, rheoli dŵr, telathrebu, twristiaeth, cynllunio gwlad a thref neu ddefnydd tir,<br>AC a yw'n creu fframwaith ar gyfer rhoi cydsyniad datblygu yn | **Ydy**<br><br><br><br><br>**Nag ydy** | Mae'n debygol y bydd yr Hysbysiad Cynllunio Morol yn cynnwys Ardaloedd Adnoddau Strategol mewn perthynas â thechnolegau newydd ym maes ynni adnewyddadwy'r môr (adnoddau ynni tonnau, adnoddau ynni ffrwd llanw ac, o bosibl, adnoddau ynni amrediad llanw ac adnoddau ynni gwynt arnofiol ar y môr mawr), yn ogystal ag adnoddau agregau ac adnoddau dyframaeth.<br><br>Mae canllawiau'r Comisiwn Ewropeaidd ynghylch Asesiadau Amgylcheddol Strategol[10] yn cynghori nad oes diffiniad yn y testun i'r frawddeg sy'n ymwneud â gosod fframwaith ar gyfer rhoi cydsyniad yn y dyfodol ar gyfer datblygiadau. Serch hynny, gan amlaf, byddai'r frawddeg hon yn cael ei dehongli i olygu bod y cynllun neu'r rhaglen yn cynnwys meini prawf neu amodau sy'n llywio sut y bydd |

[10] EC (2001) Implementation of Directive 2001/42 ynghylch asesu effeithiau cynlluniau a rhaglenni penodol ar yr amgylchedd, paragraff 3.23.

| Cwestiwn sgrinio'r Asesiad Amgylcheddol Strategol | Ydy/Nag ydy<br>neu<br>Oes/Nag oes<br>neu<br>Bydd/Na fydd | Manylion |
|---|---|---|
| y dyfodol ar gyfer prosiectau yn Atodiadau I a II i'r Gyfarwyddeb Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol? (Erth. 3.2(a)) | | awdurdod cydsynio yn penderfynu ar gais am gydsyniad datblygu. Diffinnir cydsyniad datblygu yn y Gyfarwyddeb Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol fel hyn: "the decision of the competent authority or authorities which entitles the developer to proceed with the project" (Erthygl 1(2) o'r Gyfarwyddeb Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol)<br>Mae Atodiad II i'r Gyfarwyddeb Asesiadau Amgylcheddol Strategol yn dangos sut y gellid gosod fframwaith o'r fath gan gyfeirio at restr anghyflawn o ffactorau fel lleoliad, natur, maint neu amodau gweithredu prosiectau a'r adnoddau [ariannol, naturiol neu ddynol] a ddyrennir iddynt. Mae hyn wedi'i ailadrodd yn Atodiad 1 (a) i'r Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol Strategol.<br>Mae Atodiad I a II i'r Gyfarwyddeb Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol yn enwi'r prosiectau datblygu lle mae angen cynnal Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol. Mae Atodiad II yn cynnwys diwydiannau ynni, sy'n perthyn i'r sectorau sy'n debygol o gael eu cynnwys yn yr Ardaloedd Adnoddau Strategol yn yr Hysbysiad Cynllunio Morol:<br>(a) Gosodiadau diwydiannol ar gyfer cynhyrchu trydan, ager a dŵr poeth (prosiectau heb eu cynnwys yn Atodiad I);<br>(i) Gosodiadau ar gyfer harneisio ynni gwynt i gynhyrchu ynni (ffermydd gwynt).<br>Nid yw Ardaloedd Adnoddau Strategol yn yr Hysbysiad Cynllunio Morol yn creu'r fframwaith ar gyfer rhoi cydsyniad ar gyfer datblygu yn y dyfodol nac yn pennu ymlaen llaw beth fydd penderfyniad yr awdurdod cydsynio ynghylch unrhyw gais am gydsyniad datblygu. Nid yw creu ffiniau Ardal Adnoddau Strategol na chynnwys yr Ardal Adnoddau Strategol yn yr Hysbysiad Cynllunio Morol yn rhoi unrhyw amodau na meini prawf ychwanegol i'w defnyddio gan Weinidogion Cymru (fel yr awdurdod cynllunio morol perthnasol) ac awdurdodau cyhoeddus |

| Cwestiwn sgrinio'r Asesiad Amgylcheddol Strategol | Ydy/Nag ydy<br>neu<br>Oes/Nag oes<br>neu<br>Bydd/Na fydd | Manylion |
|---|---|---|
| | | wrth wneud penderfyniadau, er bod hynny'n rhoi mynegiant gofodol i ardal lle gallai'r meini prawf hynny a enwir yn SAF_02 fod yn berthnasol. Serch hynny, nid yw hyn yn ddigonol i gasglu bod yr Ardal Adnoddau Strategol ei hyn yn gyfrifol am gyflwyno'r meini prawf. Y bwriad yw y bydd yr Ardaloedd Adnoddau Strategol yn cyd-fynd â SAF_02 er mwyn canfod ardaloedd lle ceir adnoddau sy'n ymwneud â sectorau penodol i'w diogelu at ddefnydd posibl yn y dyfodol, heb ddod i unrhyw gasgliad am ba mor dderbyniol neu annerbyniol yw datblygiadau penodol. Yn benodol:<br>• Bydd yr Hysbysiad Cynllunio Morol yn gwbl atodol i'r Cynllun Morol ac yn amodol ar hwnnw ac ni fydd yn cyflwyno unrhyw bolisïau newydd, ac ni all wrthdaro a pholisïau'r Cynllun Morol.<br>• Nid yw Ardaloedd Adnoddau Strategol yn yr Hysbysiad Cynllunio Morol yn rhoi hawliau defnyddio na hawliau datblygu i unrhyw sector.<br>• Ni fydd Ardaloedd Adnoddau Strategol yn yr Hysbysiad Cynllunio Morol yn rhoi cefnogaeth uniongyrchol na manteision o ran cynllunio ar gyfer datblygu (e.e. ni fydd cynnig 'ffrwd llanw' yn cael ei ystyried yn fwy derbyniol neu'n fwy tebygol o gael ei ganiatáu gan ei fod mewn Ardal Adnoddau Strategol ffrwd llanw).<br>• Nid yw Ardaloedd Adnoddau Strategol yn yr Hysbysiad Cynllunio Morol yn rhwystro sectorau eraill rhag defnyddio ardal (felly, er enghraifft, yn syml byddai angen i gynnig agregau mewn Ardal Adnoddau Strategol 'ffrwd llanw' ddangos (inter alia) y gellid sicrhau cydnawsedd digonol â'r potensial i ddarparu datblygiadau ffrwd llanw cynaliadwy yn yr ardal honno). |

| Cwestiwn sgrinio'r Asesiad Amgylcheddol Strategol | Ydy/Nag ydy<br>neu<br>Oes/Nag oes<br>neu<br>Bydd/Na fydd | Manylion |
|---|---|---|
| | | • Nid yw Ardaloedd Adnoddau Strategol yn yr Hysbysiad Cynllunio Morol yn awgrymu unrhyw faint neu raddfa benodol ar gyfer datblygu neu ddefnyddio adnodd.<br>Bydd yr Hysbysiad Cynllunio Morol yn rhoi canllawiau atodol i ddehongli SAF_02 ynghylch 'cydnawsedd digonol' a'r 'achos dros fwrw ymlaen' a gall roi modd o flaenoriaethu a/neu feini prawf i helpu gyda'r broses o wneud penderfyniadau.  Byddai'r rhain yn ystyriaeth berthnasol wrth wneud penderfyniadau o dan adran 58 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir.  Serch hynny, byddai angen i unrhyw benderfyniadau o'r fath fod yn unol â'r Cynllun Morol a'r meini prawf a sefydlwyd o dan SAF_02 (a'r fframwaith polisi cynllunio ehangach a ddarperir gan y Cynllun Morol).  O ganlyniad, er y gall yr Hysbysiad Cynllunio Morol gynnwys meini prawf i gefnogi'r dehongliad o elfennau penodol o SAF_02, ac ystyried y modd penodol y dilynir y meini prawf, eu natur atodol, a'u pwysau wrth wneud penderfyniad, ni ystyrir y byddai eu cyflwyno yn gyfystyr â gosod fframwaith ar gyfer rhoi cydsyniad ar gyfer datblygu yn y dyfodol.<br>I grynhoi, ni fyddai'r Hysbysiad Cynllunio Morol, fel mae'n cael ei ddeall ar hyn o bryd, yn creu fframwaith ar gyfer rhoi cydsyniad datblygu yn y dyfodol ar gyfer prosiectau yn Atodiadau I a II i'r Gyfarwyddeb Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol. |
| 4. A fydd y cynllun (neu'r rhaglen), ac ystyried yr effaith debygol a gaiff ar safleoedd, yn gofyn am asesiad ar gyfer datblygu yn y dyfodol o | **Na fydd** | Mae'r Hysbysiad Cynllunio Morol wedi cael ei ystyried o dan ofynion Erthygl 6 neu 7 y Gyfarwyddeb Cynefinoedd (a adlewyrchir drwy gymhwyso Rheoliad 63 (ac o bosibl 64) Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017).  Mae'r broses hon, sy'n cael ei galw'n gyffredin fel Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, yn pennu a fydd unrhyw 'effeithiau sylweddol tebygol' ar unrhyw safle Ewropeaidd |

| Cwestiwn sgrinio'r Asesiad Amgylcheddol Strategol | Ydy/Nag ydy<br>neu<br>Oes/Nag oes<br>neu<br>Bydd/Na fydd | Manylion |
|---|---|---|
| dan Erthygl 6 neu 7 o'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd? (Erth. 3.2 (b)) | | [11] o ganlyniad i weithredu'r cynllun (naill ai ar ei ben ei hun neu 'ar y cyd' â chynlluniau neu brosiectau eraill); ac, os hynny, a fydd yr effeithiau hyn yn arwain at unrhyw effeithiau niweidiol ar integredd y safle.<br>Mae proses sgrinio'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar gyfer Hysbysiad Cynllunio Strategol yr Ardaloedd Adnoddau Strategol wedi dod i'r casgliad nad yw'n cyflwyno unrhyw fecanweithiau lle byddai effeithiau sylweddol ar unrhyw safleoedd Ewropeaidd yn debygol, ar ei ben ei hun nac ar y cyd, oherwydd y nodweddion sylfaenol a fydd yn gyffredin i Hysbysiadau Cynllunio Strategol yr Ardaloedd Adnoddau Strategol ym mhob sector.  Yn benodol, ni fydd Hysbysiadau Cynllunio Morol yr Ardaloedd Adnoddau Strategol yn cynnwys unrhyw strategaethau neu bolisïau, neu'n gwneud cynigion neu ddarpariaethau ar gyfer unrhyw newidiadau, a allai effeithio mewn egwyddor ar safle Ewropeaidd.  Defnyddir yr Ardaloedd Adnoddau Strategol i roi Polisi SAF_02 ar waith (ac ystyrir hwnnw ei hun yn bolisi 'heb effeithiau sylweddol' yn Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd y Cynllun Morol), a hynny mewn ffordd:<br>• nad yw'n rhoi hawliau ar gyfer defnydd na datblygu i unrhyw sector; |

[11] Safleoedd Ewropeaidd yw: unrhyw Ardal Gadwraeth Arbennig o'r adeg pan gytunodd y Comisiwn Ewropeaidd a Llywodraeth y DU ar y safle fel 'Safle o Bwys i'r Gymuned' (os oedd hyn cyn 31 Ionawr 2020); unrhyw Ardal Gwarchodaeth Arbennig ddosbarthiadol; ac unrhyw ddarpar Ardal Gadwraeth Arbennig.  Serch hynny, defnyddir y term yn gyffredin hefyd wrth gyfeirio at Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig posibl, lle mae darpariaethau Erthygl 4(4) o Gyfarwyddeb 2009/147/EC (y 'gyfarwyddeb newydd ar gyfer adar gwyllt') yn berthnasol; ac i Ardaloedd Cadwraeth Arbennig posibl a Safleoedd Ramsar, y mae darpariaethau'r Rheoliadau Cynefinoedd yn berthnasol iddynt fel mater o bolisi'r Llywodraeth (paragraff NPPF 176; paragraff TAN5 5.2.2) wrth ystyried unrhyw gynigion ar gyfer datblygu a allai effeithio arnynt.  Gan hynny, defnyddir "safle Ewropeaidd" yn y nodyn hwn yn ei ystyr ehangaf, fel term ambarél ar gyfer yr holl safleoedd dynodedig uchod.  I raddau helaeth, roedd Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 yn defnyddio'r un darpariaethau a'r un derminoleg â Rheoliadau 2017, (felly mae'r term 'safle Ewropeaidd' wedi'i gadw ar hyn o bryd, ac at bob diben ymarferol, nid yw'r diffiniad yn ei hanfod wedi newid).

| Cwestiwn sgrinio'r Asesiad Amgylcheddol Strategol | Ydy/Nag ydy<br>neu<br>Oes/Nag oes<br>neu<br>Bydd/Na fydd | Manylion |
|---|---|---|
| | | • nad yw'n rhoi unrhyw gefnogaeth uniongyrchol nac anuniongyrchol, na manteision o ran penderfyniadau cynllunio, ar gyfer datblygu gan sector penodol;<br>• nad yw'n rhwystro sectorau neu weithgareddau eraill rhag defnyddio ardal;<br>• nad yw'n awgrymu unrhyw faint neu raddfa ar gyfer datblygu neu ddefnyddio adnodd;<br>• na fydd yn arwain at effeithiau anuniongyrchol nac eilaidd ar safleoedd Ewropeaidd drwy roi'r argraff o gefnogaeth, drwy symud gweithgareddau'n anfwriadol, drwy rwystro camau cadwraeth, neu drwy roi cefnogaeth anuniongyrchol i ddatblygiad a allai effeithio'n niweidiol ar safle Ewropeaidd.<br>I gadarnhau drachefn, o dan y maen prawf hwn, nid oes angen asesiad o dan Erthygl 6 neu 7 o'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd ar yr Hysbysiad Cynllunio Morol. |
| 5. A yw'r cynllun neu'r rhaglen yn pennu sut y defnyddir ardaloedd bychain ar lefel leol, | **Nag ydy** | Dogfen strategol yw'r Hysbysiad Cynllunio Morol sy'n rhoi sylw i ardaloedd sy'n debygol o gael eu hamlinellu ar gyfer Ardaloedd Adnoddau Strategol pob sector, sy'n debygol o fod yn is-set o Ardaloedd Adnoddau ehangach, fel yr amlinellir yn Ffigur 2, 'Trosolwg o Ardaloedd Adnoddau' yn y Cynllun Morol. O ganlyniad, ni ystyrir bod yr Hysbysiad Cynllunio Morol yn bodloni'r maen prawf hwn wrth ystyried canllawiau'r Comisiwn Ewropeaidd ynghylch yr hyn y gallai "ardaloedd bychain" ei gynnwys: "The kind of plan or programme envisaged might be a building plan which, for a particular, limited area, outlines details of how buildings must be constructed, determining, for example, their height, width or design". |

| **Cwestiwn sgrinio'r Asesiad Amgylcheddol Strategol** | Ydy/Nag ydy<br>neu<br>Oes/Nag oes<br>neu<br>Bydd/Na fydd | **Manylion** |
|---|---|---|
| YNTEU a yw'n fân addasiad o gynllun neu raglen yn unol ag Erth. 3.2? (Erth. 3.3) | **Nag ydy** | Dogfen newydd yw'r Hysbysiad Cynllunio Morol ac ni ystyrir ei bod yn fân addasiad i gynllun sy'n bodoli'n barod (er y bydd yn datblygu ar elfennau yn y Cynllun Morol a'r Canllawiau Gweithredu). |
| 6. A yw'r cynllun neu'r rhaglen yn creu fframwaith ar gyfer rhoi cydsyniad datblygu yn y dyfodol ar gyfer prosiectau (nid prosiectau yn y Gyfarwyddeb Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol yn unig)? (Erth. 3.4) | **Nag ydy** | Mae canllawiau'r Comisiwn Ewropeaidd[12] ynghylch Asesiadau Amgylcheddol Strategol yn cynghori nad oes diffiniad yn y testun i'r frawddeg sy'n ymwneud â gosod fframwaith ar gyfer rhoi cydsyniad yn y dyfodol ar gyfer datblygiadau. Serch hynny, gan amlaf, byddai'r frawddeg hon yn cael ei dehongli i olygu bod y cynllun neu'r rhaglen yn cynnwys meini prawf neu amodau sy'n llywio sut y bydd awdurdod cydsynio yn penderfynu ar gais am gydsyniad datblygu. Diffinnir cydsyniad datblygu yn y Gyfarwyddeb Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol fel hyn: "the decision of the competent authority or authorities which entitles the developer to proceed with the project" (Erthygl 1(2) o'r Gyfarwyddeb Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol).<br>Mae Atodiad II i'r Gyfarwyddeb Asesiadau Amgylcheddol Strategol yn dangos sut y gellid gosod fframwaith o'r fath gan gyfeirio at restr anghyflawn o ffactorau fel lleoliad, natur, maint neu amodau gweithredu prosiectau a'r adnoddau [ariannol, naturiol neu ddynol] a ddyrennir iddynt. Mae hyn wedi'i ailadrodd yn Atodiad 1 (a) i'r Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol Strategol.<br>Mae Atodiad I a II o'r Gyfarwyddeb Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol yn enwi'r prosiectau datblygu lle mae angen cynnal Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol. Mae Atodiad II yn cynnwys diwydiannau ynni, sy'n perthyn i'r sectorau sy'n debygol o gael eu cynnwys yn yr Ardaloedd Adnoddau Strategol yn yr Hysbysiad Cynllunio Morol: |

[12] EC (2001) Implementation of Directive 2001/42 ynghylch asesu effeithiau cynlluniau a rhaglenni penodol ar yr amgylchedd, paragraff 3.23.

| Cwestiwn sgrinio'r Asesiad Amgylcheddol Strategol | Ydy/Nag ydy<br>neu<br>Oes/Nag oes<br>neu<br>Bydd/Na fydd | Manylion |
|---|---|---|
| | | (a) Gosodiadau diwydiannol ar gyfer cynhyrchu trydan, ager a dŵr poeth (prosiectau heb eu cynnwys yn Atodiad I);<br>(i) Gosodiadau ar gyfer harneisio ynni gwynt i gynhyrchu ynni (ffermydd gwynt).<br>Nid yw Ardaloedd Adnoddau Strategol yn yr Hysbysiad Cynllunio Morol yn creu'r fframwaith ar gyfer rhoi cydsyniad ar gyfer datblygu yn y dyfodol nac yn pennu ymlaen llaw beth fydd penderfyniad yr awdurdod cydsynio ynghylch unrhyw gais am gydsyniad datblygu. Nid yw creu ffiniau Ardal Adnoddau Strategol na chynnwys yr Ardal Adnoddau Strategol yn yr Hysbysiad Cynllunio Morol yn rhoi unrhyw amodau na meini prawf ychwanegol i'w defnyddio gan Weinidogion Cymru (fel yr awdurdod cynllunio morol perthnasol) ac awdurdodau cyhoeddus wrth wneud penderfyniadau, er bod hynny'n rhoi mynegiant gofodol i ardal lle gallai'r meini prawf hynny a enwir yn SAF_02 fod yn berthnasol. Serch hynny, nid yw hyn yn ddigonol i gasglu bod yr Ardal Adnoddau Strategol ei hyn yn gyfrifol am gyflwyno'r meini prawf. Y bwriad yw y bydd yr Ardaloedd Adnoddau Strategol yn cyd-fynd â SAF_02 er mwyn canfod ardaloedd lle ceir adnoddau sy'n ymwneud â sectorau penodol i'w diogelu at ddefnydd posibl yn y dyfodol, heb ddod i unrhyw gasgliad am ba mor dderbyniol neu annerbyniol yw datblygiadau penodol. Yn benodol:<br>• Bydd yr Hysbysiad Cynllunio Morol yn gwbl atodol i'r Cynllun Morol ac yn amodol ar hwnnw ac ni fydd yn cyflwyno unrhyw bolisïau newydd, ac ni all wrthdaro a pholisïau'r Cynllun Morol.<br>• Nid yw Ardaloedd Adnoddau Strategol yn yr Hysbysiad Cynllunio Morol yn rhoi hawliau defnyddio na hawliau datblygu i unrhyw sector. |

| Cwestiwn sgrinio'r Asesiad Amgylcheddol Strategol | Ydy/Nag ydy<br>neu<br>Oes/Nag oes<br>neu<br>Bydd/Na fydd | Manylion |
|---|---|---|
| | | • Ni fydd Ardaloedd Adnoddau Strategol yn yr Hysbysiad Cynllunio Morol yn rhoi cefnogaeth uniongyrchol na manteision o ran cynllunio ar gyfer datblygu (e.e. ni fydd cynnig 'ffrwd llanw' yn cael ei ystyried yn fwy derbyniol neu'n fwy tebygol o gael ei ganiatáu gan ei fod mewn Ardal Adnoddau Strategol ffrwd llanw).<br>• Nid yw Ardaloedd Adnoddau Strategol yn yr Hysbysiad Cynllunio Morol yn rhwystro sectorau eraill rhag defnyddio ardal (felly, er enghraifft, yn syml byddai angen i gynnig agregau mewn Ardal Adnoddau Strategol 'ffrwd llanw' ddangos (inter alia) y gellid sicrhau cydnawsedd digonol â'r potensial i ddarparu datblygiadau ffrwd llanw cynaliadwy yn yr ardal honno).<br>• Nid yw Ardaloedd Adnoddau Strategol yn yr Hysbysiad Cynllunio Morol yn awgrymu unrhyw faint neu raddfa benodol ar gyfer datblygu neu ddefnyddio adnodd.<br>Bydd yr Hysbysiad Cynllunio Morol yn rhoi canllawiau atodol i ddehongli SAF_02 ynghylch 'cydnawsedd digonol' a'r 'achos dros fwrw ymlaen' a gall roi modd o flaenoriaethu a/neu feini prawf i helpu gyda'r broses o wneud penderfyniadau.  Byddai'r rhain yn ystyriaeth berthnasol wrth wneud penderfyniadau o dan adran 58 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009.  Serch hynny, byddai angen i unrhyw benderfyniadau o'r fath fod yn unol â'r Cynllun Morol a'r meini prawf a sefydlwyd o dan SAF_02 (a'r fframwaith polisi cynllunio ehangach a ddarperir gan y Cynllun Morol).  O ganlyniad, er y gall yr Hysbysiad Cynllunio Morol gynnwys meini prawf i gefnogi'r dehongliad o elfennau penodol o SAF_02, ac ystyried y modd penodol y dilynir y meini prawf, eu natur atodol, a'u |

| Cwestiwn sgrinio'r Asesiad Amgylcheddol Strategol | Ydy/Nag ydy neu Oes/Nag oes neu Bydd/Na fydd | Manylion |
|---|---|---|
| | | pwysau wrth wneud penderfyniad, ni ystyrir y byddai eu cyflwyno yn gyfystyr â gosod fframwaith ar gyfer rhoi cydsyniad ar gyfer datblygu yn y dyfodol.<br>I grynhoi, ni fyddai'r Hysbysiad Cynllunio Morol, fel mae'n cael ei ddeall ar hyn o bryd, yn creu fframwaith ar gyfer rhoi cydsyniad datblygu yn y dyfodol ar gyfer prosiectau yn Atodiadau I a II i'r Gyfarwyddeb Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol. |
| 7. Ai unig ddiben y cynllun neu'r rhaglen yw amddiffyn y genedl neu wasanaethu argyfwng sifil, NEU a yw'n gynllun neu'n rhaglen sy'n ariannol neu'n gyllidebol, NEU a yw'n cael ei gyd-ariannu gan gyllid strwythurol neu raglenni'r Gronfa Gwarant Amaethyddol Ewropeaidd rhwng 2000 a 2006/7 (Erth. 3.8, 3.9) | **Nag ydy** | Diben yr Hysbysiad Cynllunio Morol yw rhoi polisi SAF_02 y Cynllun Morol a'r Ardal Adnoddau Strategol ar waith. Mae'n rhoi canllawiau cynllunio atodol, ffurfiol.<br>Nid yw'n gysylltiedig ag amddiffyn y genedl nac argyfwng sifil, nac yn gynllun neu'n rhaglen sy'n ariannol neu'n gyllidebol, nac yn cael ei gyd-ariannu gan gyllid strwythurol neu raglenni'r Gronfa Gwarant Amaethyddol Ewropeaidd rhwng 2000 a 2006/7.<br>O ganlyniad, nid yw'r Hysbysiad Cynllunio Morol yn bodloni'r maen prawf hwn. |
| 8. A yw'n debygol o gael effaith sylweddol ar yr amgylchedd? (Erth. 3.5) | **Nag ydy** | Mae Atodiad II o'r Gyfarwyddeb Asesiadau Amgylcheddol Strategol (neu Atodlen 1 i'r rheoliad) yn darparu'r meini prawf ar gyfer deall yr effeithiau sylweddol tebygol ar yr amgylchedd ac mae'n berthnasol i nodweddion y cynllun a nodweddion yr effeithiau a'r ardal y mae'n debygol yr effeithir arni. |

| Cwestiwn sgrinio'r Asesiad Amgylcheddol Strategol | Ydy/Nag ydy<br>neu<br>Oes/Nag oes<br>neu<br>Bydd/Na fydd | Manylion |
|---|---|---|
| | | Y bwriad yw y bydd gan Hysbysiad Cynllunio Morol yr Ardaloedd Adnoddau Strategol y nodweddion hyn:<br>• Bydd yn gwbl atodol i'r Cynllun Morol ac yn amodol ar hwnnw ac ni fydd yn cyflwyno unrhyw bolisïau newydd, ac ni all wrthdaro a pholisïau'r Cynllun Morol.<br>• Y bwriad yw y bydd yr Ardaloedd Adnoddau Strategol yn gweithredu gyda SAF_02 er mwyn adnabod ardaloedd o adnoddau sy'n gysylltiedig â sectorau penodol a'r rheini'n diogelu adnoddau rhag cael eu sterileiddio'n amhriodol, ac yn hwyluso deialog ragweithiol rhwng sectorau wrth gynllunio gweithgareddau'r dyfodol; nid ydynt yn diogelu adnoddau ar gyfer eu datblygu. Cafodd SAF_02 ei werthuso yn Arfarniad o Gynaliadwyedd[13] y Cynllun Morol gan bennu bod ei effeithiau naill ai'n niwtral neu'n gadarnhaol (gyda pheth ansicrwydd), a chwblhawyd yr Arfarniad o Gynaliadwyedd hefyd i fodloni gofynion yr Asesiad Amgylcheddol Strategol.<br>• Rhaid i'r holl gynigion sy'n deillio o Ardal Adnoddau Strategol ddilyn y gweithdrefnau awdurdodi a chydsynio arferol.  Ni fydd yr Ardaloedd Adnoddau Strategol yn dylanwadu ar ba mor dderbyniol (neu beidio) yw datblygiadau penodol; ni fyddant chwaith yn rhoi hawliau, cefnogaeth, manteision o ran penderfyniadau cynllunio (ac ati) ar gyfer datblygu gan sector penodol; ni fyddant chwaith yn awgrymu unrhyw faint neu raddfa ar gyfer datblygu neu ddefnyddio adnoddau.  Ni fydd cynnig ym |

[13] Llywodraeth Cymru (2019) *Welsh National Marine Plan Sustainability Appraisal Addendum* (Saesneg yn unig), Tachwedd 2019.

| Cwestiwn sgrinio'r Asesiad Amgylcheddol Strategol | Ydy/Nag ydy<br>neu<br>Oes/Nag oes<br>neu<br>Bydd/Na fydd | Manylion |
|---|---|---|
| | | maes 'ffrwd llanw' yn cael ei ystyried yn fwy derbyniol neu'n fwy tebygol o gael ei ganiatáu gan ei fod mewn Ardal Adnoddau Strategol ffrwd llanw; yn yr un modd, ni fyddai datblygiad agregau'n cael ei wahardd o Ardal Adnoddau Strategol ffrwd llanw.<br>O ganlyniad, ni fydd rhoi Hysbysiad Cynllunio Morol yr Ardaloedd Adnoddau Strategol ar waith yn cael unrhyw effeithiau sylweddol tebygol ar yr amgylchedd gan nad oes mecanweithiau a allai achosi effeithiau o'r fath.<br>Ceir llwybrau damcaniaethol lle gallai dynodi Ardaloedd Adnoddau Strategol gael effeithiau anuniongyrchol ar ddatblygu yn y dyfodol, e.e. bwriad cynllunio, 'effeithiau rhwystro' goddefol, neu drwy gefnogi'n anuniongyrchol ddadl 'dim opsiynau eraill' o dan y Rheoliadau Cynefinoedd.  Serch hynny, ni ystyrir bod y mecanweithiau hyn yn arwain at effeithiau, ac ystyried y fframwaith polisi cynllunio morol a geir yn y Cynllun Morol, yn benodol ENV_01 ac ENV_02, casgliadau'r Arfarniad o Gynaliadwyedd y Cynllun Morol, ac egwyddorion dylunio'r Ardaloedd Adnoddau Strategol, ac yn enwedig yr angen i wneud y canlynol:<br>• ystyried cyfyngiadau 'meddal' a diwygio Ardal Adnoddau Strategol bosibl fel sy'n briodol [er enghraifft, ystyried gweithgareddau presennol (SAF_01b); ystyriaethau amgylcheddol (polisïau ENV_01, 02, 07); ystyriaethau cymdeithasol/diwylliannol (polisïau SOC_05, 06, 07)];<br>• ceisio lleihau gwrthdaro rhwng cyfleoedd sectorol;<br>• ceisio hyrwyddo cydfodolaeth a chynllunio'n ofodol yn y ffordd orau bosibl er mwyn diogelu adnoddau.<br>Dyma'r casgliad: ni ystyrir ei bod yn debygol y bydd Hysbysiad Cynllunio Morol yr Ardaloedd Adnoddau |


| **Cwestiwn sgrinio'r Asesiad Amgylcheddol Strategol** | Ydy/Nag ydy<br>neu<br>Oes/Nag oes<br>neu<br>Bydd/Na fydd | **Manylion** |
|---|---|---|
| | | Strategol yn cael effeithiau sylweddol wrth ystyried ei nodweddion neu bresenoldeb llwybrau uniongyrchol neu anuniongyrchol a fyddai'n debygol o gael effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd. Mae'r canfyddiad hwn yn adlewyrchu proses sgrinio'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar gyfer Hysbysiad Cynllunio Strategol yr Ardaloedd Adnoddau Strategol sydd wedi dod i'r casgliad nad yw'n cyflwyno unrhyw fecanweithiau lle byddai effeithiau sylweddol ar unrhyw safleoedd Ewropeaidd yn debygol, ar ei ben ei hun nac ar y cyd, oherwydd y nodweddion sylfaenol a fydd yn gyffredin i Hysbysiadau Cynllunio Strategol yr Ardaloedd Adnoddau Strategol ym mhob sector. |

3.1.3 Mae **Ffigur 3.2** yn mapio'r ymatebion perthnasol yn **Nhabl 3.1** ar broses sgrinio'r Asesiad Amgylcheddol Strategol. Mae'n arwain at y casgliad nad oes angen Asesiad Amgylcheddol Strategol., oherwydd er bod Hysbysiad Cynllunio Morol yr Ardaloedd Adnoddau Strategol yn gynllun neu'n rhaglen sy'n berthnasol (Erthygl 2a y Gyfarwyddeb Asesiadau Amgylcheddol Strategol/Rheoliad 2(1)(a) y Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol Strategol) ac er ei fod mewn sector priodol (Erthygl 3.2a y Gyfarwyddeb Asesiadau Amgylcheddol Strategol/Rheoliad 5(2)(a) y Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol Strategol), nid yw'n gwneud y canlynol:

- creu'r fframwaith ar gyfer rhoi cydsyniad datblygu yn y dyfodol (Erthygl 3.2a ac Erthygl 3.4 y Gyfarwyddeb Asesiadau Amgylcheddol Strategol / Rheoliad 5(2)(b) y Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol Strategol); ac
- nid yw'n debygol y bydd yn cael effeithiau sylweddol ar safleoedd Ewropeaidd y mae angen eu hasesu o dan y Rheoliadau Cynefinoedd[14] (Erthygl 3.2b ac Erthygl 3.4 y Gyfarwyddeb Asesiadau Amgylcheddol Strategol / Rheoliad 5(3) y Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol Strategol) {gweler yr adroddiad ar broses sgrinio'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, 807823-WOOD-ZZ-XX-TN-OE-00002_S3_1).

[14] Llywodraeth EM (2017) Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (SI 1012)

Ffigur 3.2 Proses sgrinio'r Asesiad Amgylcheddol Strategol (mae'r blychau coch yn berthnasol i broses sgrinio Hysbysiad Cynllunio Morol yr Ardaloedd Adnoddau Strategol)




# 4. Arfarniad o Gynaliadwyedd

4.1.1 Mae Atodlen 6 (1) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gynnal Arfarniad o Gynaliadwyedd er mwyn asesu effeithiau tebygol y polisïau a gyflwynir yn y Cynllun Morol. Wrth fodloni'r gofyniad i gynnal Arfarniad o Gynaliadwyedd, penderfynodd Llywodraeth Cymru hefyd ymgorffori gofynion yr Asesiad

Amgylcheddol Strategol a'r rheoliadau trosi (y Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol Strategol). Cwblhawyd yr Arfarniad o Gynaliadwyedd/yr Asesiad Amgylcheddol Strategol[15] ar yr un pryd ag y mabwysiadwyd y Cynllun Morol.

4.1.2 Mae'n amwys a yw'r gofynion sy'n ymwneud â chynnal Arfarniad o Gynaliadwyedd yn Atodlen 6 (10) i Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 yn berthnasol i'r Hysbysiadau Cynllunio Morol yn ogystal ag i'r Cynllun Morol, gan nad oes unrhyw gyfeiriad yn yr atodlen at gymhwyso'r Arfarniad o Gynaliadwyedd i ddogfennau atodol eraill. Nid oes unrhyw gynseiliau perthnasol wrth ystyried y cynlluniau morol a fabwysiadwyd yn Lloegr (o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009). Yn yr Alban, er bod enghreifftiau o fabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol perthnasol[16] (drwy Gynlluniau Datblygu Lleol a Chynllun Gofodol Morol yr Alban), nid yw'n ofynnol cynnal arfarniad o gynaliadwyedd yn achos y rhain.

4.1.3 Gan ddilyn arferion cynllunio defnydd tir, mae'r berthynas rhwng yr Hysbysiadau Cynllunio Morol a'r Cynllun Morol yn ddigon tebyg i'r berthynas rhwng Canllawiau Cynllunio Atodol a Chynllun Datblygu Lleol, gan y gall Canllawiau Cynllunio Atodol roi rhagor o wybodaeth a chymorth i ddehongli'r polisïau yn y Cynllun Datblygu Lleol. Wrth ystyried y gofynion ar gyfer asesiad ar lefel cynlluniau, mae canllawiau Llywodraeth Cymru[17] yn datgan:

"Er bod canllawiau cynllunio atodol yn anstatudol ac nad oes angen Arfarniad o Gynaliadwyedd, AAS na HRA arnynt, gall y Rheoliadau AAS fod yn berthnasol i rai mathau o ganllawiau cynllunio atodol, er enghraifft rhai briffiau datblygu, prif gynlluniau neu Gynlluniau Lleoedd. Lle mae sgrinio'n dangos bod AAS a/neu HRA yn berthnasol a bod effeithiau amgylcheddol sylweddol yn debygol, bydd angen i'r ACLl sicrhau ei fod wedi bodloni gofynion y Rheoliadau SEA a HRA." [Adran 9.7]

4.1.4 Mae canllawiau cyfatebol[18] gan Lywodraeth y DU ynghylch dogfennau cynllunio atodol yn datgan:

"Supplementary planning documents do not require a sustainability appraisal but may in exceptional circumstances require a strategic environmental assessment if they are likely to have significant environmental effects that have not already have been assessed during the preparation of the relevant strategic policies."

4.1.5 Drwy ddefnyddio enghreifftiau o gynllunio morol yn yr Alban a chynllunio defnydd tir yng Nghymru a Lloegr yn gynsail, daethpwyd i'r casgliad y dylai'r un dull gael ei ddefnyddio, ac nad oes angen cynnal Arfarniad o Gynaliadwyedd ar gyfer Hysbysiad Cynllunio Morol yr Ardaloedd Adnoddau Strategol. Serch hynny, er na ystyrir hyn yn ofyniad clir, gallai Llywodraeth Cymru o hyd ystyried ei bod yn briodol cynnal Arfarniad o Gynaliadwyedd ar gyfer Hysbysiad Cynllunio Morol yr Ardaloedd Adnoddau Strategol er mwyn rhoi sail i'r

---

[15] Llywodraeth Cymru (2019) Arfarniad o Gynaliadwyedd: Datganiad ôl-fabwysiadu Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru, Rhagfyr 2019.
[16] Shetland Local Development Plan (2014) Supplementary Guidance: Aquaculture, Orkney Local Development Plan (2017) Supplementary Guidance: Aquaculture; Highland Local Development Plan (2015) Supplementary Guidance: Aquaculture
[17] Llywodraeth Cymru (2020) Llawlyfr Cynlluniau Datblygu, Mawrth 2020.
[18] DLUHC (2020) Planning Practice Guidance, Guidance: Strategic environmental assessment and sustainability appraisal, Paragraff: 008 Cyfeirnod: 11-008-20140306.

broses o ddatblygu'r hysbysiad a helpu cynllunio morol i gyfrannu at gyflawni datblygu cynaliadwy.

# 5. Casgliad

5.1.1 Ar ôl cymhwyso meini prawf proses sgrinio'r Asesiad Amgylcheddol Strategol i'r Hysbysiad Cynllunio Morol, ac ar ôl ystyried y broses ar gyfer gwneud penderfyniadau a amlinellir yn **Ffigur 3.2, y casgliad yw na fydd gofyniad ffurfiol i gwblhau Asesiad Amgylcheddol Strategol.**

5.1.2 Er bod Hysbysiad Cynllunio Morol yr Ardaloedd Adnoddau Strategol yn gymwys fel cynllun neu raglen sy'n berthnasol (Erthygl 2a y Gyfarwyddeb Asesiadau Amgylcheddol Strategol / Rheoliad 2(1)(a) y Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol Strategol) ac er ei fod mewn sector priodol (Erthygl 3.2a y Gyfarwyddeb Asesiadau Amgylcheddol Strategol / Rheoliad 5(2)(a) y Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol Strategol), nid yw'n gwneud y canlynol:

- gosod y fframwaith ar gyfer rhoi cydsyniad datblygu yn y dyfodol (Erthygl 3.2a ac Erthygl 3.4 y Gyfarwyddeb Asesiadau Amgylcheddol Strategol / Rheoliad 5(2)(b) y Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol Strategol); nac
- yn debygol o gael effeithiau sylweddol ar safleoedd Ewropeaidd y mae angen eu hasesu o dan y Rheoliadau Cynefinoedd (Erthygl 3.2b y Gyfarwyddeb Asesiadau Amgylcheddol Strategol / Rheoliad 5(3) y Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol Strategol).

5.1.3 O ganlyniad, nid yw'r gofynion ar gyfer cynnal Asesiad Amgylcheddol Strategol o dan y rheoliadau perthnasol wedi'u bodloni.

5.1.4 Mae'r angen i gynnal Arfarniad o Gynaliadwyedd ar gyfer Hysbysiad Cynllunio Morol yr Ardaloedd Adnoddau Strategol hefyd wedi'i ystyried. Er bod y sefyllfa'n amwys, drwy ddefnyddio enghreifftiau o gynllunio morol yn yr Alban a chynllunio defnydd tir yng Nghymru a Lloegr yn gynsail, daethpwyd i'r casgliad y dylai'r un dull gael ei ddefnyddio, ac nad oes angen cynnal Arfarniad o Gynaliadwyedd ar gyfer Hysbysiad Cynllunio Morol yr Ardaloedd Adnoddau Strategol.

5.1.5 Cafwyd trafodaethau â Cyfoeth Naturiol Cymru am y casgliadau dros dro hyn.

5.1.6 Argymhellir bod Llywodraeth Cymru yn parhau i adolygu proses sgrinio'r Asesiad Amgylcheddol Strategol a'r casgliadau dros dro, a hynny er mwyn adlewyrchu unrhyw newidiadau pan fydd mwy o wybodaeth am gynnwys terfynol Hysbysiad Cynllunio Morol yr Ardaloedd Adnoddau Strategol ar gael.

5.1.7 Efallai y bydd Llywodraeth Cymru yn dal i ddymuno defnyddio dulliau asesu strategol wrth ddatblygu Hysbysiad Cynllunio Morol yr Ardaloedd Adnoddau Strategol; serch hynny, Gweinidogion Cymry fyddai i benderfynu hynny.

wood.

## Cyhoeddwyd gan

.................................................................................
Pete Davis

## Cymeradwywyd gan

.................................................................................
Mike Frost

## Hysbysiad hawlfraint a pheidio â datgelu

Mae hawlfraint sy’n berchen i Wood (© Wood Group UK Limited 2021) yn berthnasol i gynnwys a chynllun yr adroddiad hwn ac eithrio i’r graddau y mae hawlfraint wedi’i haseinio’n gyfreithiol inni gan barti arall neu pan fydd yn cael ei defnyddio gan Wood o dan drwydded. I’r graddau mai ni sy’n berchen ar yr hawlfraint yn yr adroddiad hwn, ni cheir ei chopïo na’i defnyddio heb gytundeb ysgrifenedig ymlaen llaw at unrhyw ddiben ac eithrio’r diben a ddynodir yn yr adroddiad hwn. Mae’r fethodoleg (os oes un) a geir yn yr adroddiad hwn wedi’i darparu ichi’n gyfrinachol ac ni cheir ei datgelu na’i chopïo i drydydd partïon heb ganiatâd ysgrifenedig Wood ymlaen llaw. Gallai datgelu’r wybodaeth honno fod yn achos cyfreithadwy o dor-cyfrinachedd neu fel arall gallai beryglu ein buddiannau masnachol. Bydd yr Ymwadiad Trydydd Parti a geir isod yn berthnasol i unrhyw drydydd parti sy’n cael gweld yr adroddiad hwn mewn unrhyw fodd, ym mhob achos.

## Ymwadiad trydydd parti

Mae’r ymwadiad hwn yn berthnasol os datgelir yr adroddiad hwn i drydydd parti mewn unrhyw fodd. Paratowyd yr adroddiad gan Wood dan gyfarwyddyd ein cleient, a enwir ar flaen yr adroddiad, ac at ddefnydd y cleient yn unig. Nid yw mewn unrhyw fodd yn gyfystyr â chyngor i unrhyw drydydd parti sy’n gallu gweld yr adroddiad mewn unrhyw ffordd. I’r graddau llawnaf a ganiateir yn gyfreithiol, mae Wood yn gwadu pob atebolrwydd ym mhob ffordd am unrhyw golledion neu ddifrod sy’n deillio ym mha bynnag fodd o ddibynnu ar gynnwys yr adroddiad hwn. Nid ydym serch hynny yn gwadu ein hatebolrwydd (os o gwbl) am anaf personol neu farwolaeth sy’n deillio o’n hesgeulustod, am dwyll, nac am unrhyw fater arall lle na allwn wadu atebolrwydd yn gyfreithiol.

## Systemau rheoli

Mae’r ddogfen hon wedi’i chreu gan Wood Group UK Limited gan gydymffurfio’n llwyr â’n systemau rheoli, sydd wedi’u hardystio gan Lloyd's Register i ISO 9001, ISO 14001 a ISO 45001.

## Diwygiadau i’r ddogfen

| Rhif | Manylion | Dyddiad |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| 3 | Drafft terfynol | 11.02.22 |
| 4 | Fersiwn derfynol wedi’i thracio | 22.02.22 |
| 5 | Cyhoeddi’r fersiwn derfynol | 22.02.22 |